Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 23 Hydref 2017, am 7:00p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorydd Jim Bryan (Maer) ac Ian Lewney (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.
Hefyd y Cynghorwyr Sir Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts.

110. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Heather Williams a Geraint Woolford a Mr Jamie Groves, Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai gyda Chyngor Sir Ddinbych ar gyfer eitem 3.

111. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiad o fudd personol fel a ganlyn: Eitem 11 – Cais am gymorth ariannol gan Grŵp Cymuned Rhuthun – Y Cynghorydd Dave Snape.

112. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN

Gohiriwyd yr eitem hon yn absenoldeb y Sarjant Johnny Hill.

113. CYFLWYNIAD AR Y CYNIGION YNGHYLCH LLYFRGELL RHUTHUN

The Mayor welcomed Mr David Lorey, Deputy Corporate Landlord with Denbighshire County Council, who gave an update on the proposed plans regarding Ruthin Library. He informed members that a business case would be submitted to the Strategic Investment Group towards the end of November, which would include an exit strategy for the current library building. Elected members concerns regarding having another empty building in the town had been noted, and the intention was to seek interest and look into applying for change of use to attract potential commercial or community benefit use of the premises. Members asked to be kept informed regarding the next steps and any public consultation to be undertaken.
PENDERFYNWYD: *to note the presentation and await further details regarding the next steps.*

114. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau isod.

26.09 Cyfarfod gyda'r Heddlu a Phwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose
28.09 Cyfarfod Cymdeithas Efeillio Rhuthun
29.09 Boreau coffi Macmillan yn swyddfa cyfreithwyr Swayne Johnson a'r Myddelton a chyfarfod y Grŵp Busnes
09.09 Ymweld â Thŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi gyda'r Gwir Anrhydeddus David Jones AS
14.09 Dathlu blwyddyn o fasnachu yn Deluxe Bathrooms, Stryd y Ffynnon, Rhuthun
15.09 Gwasanaeth Sul Dinesig Maer Prestatyn yn Eglwys Sant Melyd a chyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
16.09 Cyfarfod y Grŵp Busnes
17.09 Cyflwyniad ar Adolygiad Etholiadol Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Rhuthun

115. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney	Bore coffi Macmillan yn y Myddelton
Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Bore coffi Macmillan yn y Myddelton
Cyng. Stephen Beach	Bore coffi Macmillan yn y Myddelton, sesiwn ymgysylltu ynghylch Strategaeth Gymunedol Cyngor Sir Ddinbych yn y Ganolfan Grefft a chyfarfod y Fforwm Pobl Hŷn yn Llys Erw
Cyng. Gavin Harris	Cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
Cyng. Ken Hawkins	Wedi trefnu i Aerial Electrics drwsio'r llifoleuadau â nam arnynt yn

	Eglwys Sant Pedr
Cyng. Rosie Hughes	Dim i'w adrodd
Cyng. Robert Owen-Ellis	Cyfarfod Is-bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ysgol Pen Barras a 4 sesiwn Banc Bwyd
Cyng. Menna Jones	Bore coffi Macmillan, helpu yn y Banc Bwyd a galw i mewn yn y Sesiwn Annog y Gymraeg yn y Bar Llaeth dan nawdd Menter Iaith Sir Ddinbych ar gyfer busnesau'r dre
Cyng. Anne Roberts	Lansio gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych ynghylch cŵn a mannau chwarae yng nghlwb Rygbi Rhuthun, cyfarfod gyda'r Heddlu lleol gyda'r Maer, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, noson gwis yn y Plu er budd Cymdeithas Efeillio Rhuthun, cyfarfod Gweithgor yr Hen Lys a'r Fforwm dros 50 yn Llys Erw
Cyng. Dave Snape	Cyfarfod Blynyddol Gŵyl Rhuthun, digwyddiad codi arian Pantomeim Rhuthun, Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose, bore coffi Macmillan a chyfarfod grŵp busnes newydd Rhuthun.
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon a chyfarfod Gweithgor yr Hen Lys
Cyng. Geraint Woolford	Dim i'w adrodd
Cyng. Ifan Wyn	Dim i'w adrodd
Cyng. Emrys Wynne	Tri bore coffi Macmillan

116. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2017 yn gywir, yn amodol ar dynnu enw'r Cynghorydd Rosie Hughes oddi ar restr y rhai'n bresennol oddi ar fersiwn Saesneg y cofnodion.*

117. MATERION YN CODI

O ran dyddiadau'r cyfarfodydd, crybwyllodd y Clerc ei bod wedi ei gwahodd i briodas ar 3 Mawrth yn Awstralia, a gofynnodd am newid dyddiad y Pwyllgor Cynllunio ac Amwynderau ym mis Mawrth i 19 Mawrth. Cytunodd yr aelodau i hyn.

118. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn y cofnodion, yn amodol ar ychwanegu enw'r Cadeirydd at restr y rhai'n bresennol.*

119. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2017. Darparodd y Cynghorydd Emrys Wynne ddiweddariad ynghylch arwyddion Ffordd Glasdir ar gyfer y Ffordd Gyswllt Ogleddol, yn dilyn cyfarfod gyda Simon Billington, Pennaeth Gwasanaeth gyda Chyngor Sir Ddinbych. Mae polisi'r awdurdod lleol yn galw am chwe arwydd, wedi eu lleoli'r ddwy ochr i'r ffordd ger yr ocsiwn da byw, ger y gylchfan i Glasdir a'r naill ochr i'r ffordd lle mae'n troi'n Lôn Parcwr. Fodd bynnag, dim ond dau arwydd sy'n enwi ffordd osgoi Dinbych yn Ffordd y Rotari. Pwysleisiodd yr aelodau bod angen datrys y mater ar frys, cyn i'r ysgolion newydd ar safle Glasdir agor. Hefyd cododd yr aelodau bryderon am lwybrau cerdded i safle'r ysgolion newydd, yn enwedig i blant sy'n byw ym Mharc y Castell, er enghraifft, a fyddai'n gorfod croesi nifer o ffyrdd a mynedfeydd ar eu taith 1.9 milltir i'r ysgol.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod a bod y Cynghorwyr Jim Bryan ac Emrys Wynne yn trafod yr arwydd ymhellach gyda Chyngor Sir Ddinbych, gyda'r Cyngor Tref yn barod i dalu am ddau arwydd. Hefyd anfon llythyr at Gyngor Sir Ddinbych yn rhannu pryderon pobl leol am ddiogelwch plant yn cerdded i'r ysgolion newydd.*

120. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – GRŴP CYMUNED RHUTHUN

Bu'r aelodau'n ystyried gwybodaeth a gynhwyswyd mewn neges e-bost gan Mr Ron Bell, Cadeirydd Grŵp Cymuned Rhuthun, yn dilyn cais am gymorth ariannol o £1,000 tuag at adloniant Nos Galan ar Sgwâr Sant Pedr. Mynegodd aelodau bryderon am y trefniadau iechyd a diogelwch ar gyfer y noson, a gofynnwyd am gopi o'r asesiad risg a wnaed a'r yswiriant a drefnwyd ar gyfer y digwyddiad. Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Cyngor Tref yn talu am y tân gwyllt, ar ôl derbyn anfoneb amdanynt.

PENDERFYNWYD*: gofyn am gopi o'r asesiad risg a'r polisi yswiriant ar gyfer y digwyddiad, a thalu am y tân gwyllt di-sŵn, ar ôl cael anfoneb. Pleidleisiodd y Cynghorydd Ifan Wyn yn erbyn y cynnig.*

121. CYNLLUN BRO RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried diweddariad ynghylch adroddiad Rhuthun: Tref Farchnad y Dyfodol fel Cynllun Bro cyfredol ar gyfer Rhuthun. Cadarnhaodd y Cynghorydd Gavin Harris fod yr adroddiad bellach yn ddwyieithog a bod Mathew Jones, a fu'n gweithio gyda'r Cyngor Tref i gynhyrchu'r cynllun, yn gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych yn awr i gynhyrchu Cynlluniau Bro, ac efallai y byddai cymorth cyllidol ar gael i ddiweddaru'r adroddiad yn datgan yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma, a'r prosiectau newydd i'w gynnwys, fel yr Hen Lys, llwybr troed yn cysylltu Glasdir gyda chanol y dref ac ati.

PENDERFYNWYD*: aros am ragor o wybodaeth ynghylch cynllun Cyngor Sir Ddinbych i gynhyrchu Cynlluniau Bro lleol.*

122. YMGYNGHORIAD: CANLLAW I BRIF GYNGHORAU AR AROLYGIAD CYMUNEDAU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sylwadau Cyngor Tref Rhuthun ar y Canllaw drafft cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol.

PENDERFYNWYD*: cyfeirio'r ddogfen at y Grŵp Archwilio Dogfennau.*

123. CYFRANIAD CYNGOR TREF RHUTHUN I'R LLENG BRYDEINIG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried rhoi cyfraniad o £50.00 i'r Lleng Brydeinig tuag at dorchau pabi coch yng ngwasanaeth Sul y Cofio.

PENDERFYNWYD*: rhoi cyfraniad o £50.00 i'r Lleng Brydeinig.*

124. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30 Medi 2017.*

125. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r cyfrifon a ganlyn.*

5089	Sandra Williams	Cyflog sy'n ddyledus		£101.04
5090	Sandra Williams	Costau teithio		£63.90
5091	Boyns Net	Llwybrydd newydd	*	£48.00
5092	Pwyllgor Neuadd Ambiwlans Rhuthun	Cymorth ariannol tuag at drwsio'r to		£500.00
5093	Cymdeithas Cymuned Llanfwrog	Cymorth ariannol tuag at arddangosfa tân gwyllt 2017		£1,200.00
D.U.	Canda Copying Ltd	Rhentu'r llungopïwr a chopïau isafswm	*	£129.14
5094	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£20.04
5095	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£18.02
5096	Fineline	Cyflenwadau swyddfa - Gorffennaf	*	£1.19
5097	Fineline	Cyflenwadau swyddfa – Medi	*	£8.35
5098	Sandra Williams	100 o stampiau ail ddosbarth	*	£56.00

5099	Llanfwrog CIC	Gwasanaeth dyfrio basgedi crog – Medi x 3		£429.00
5100	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt - Hydref		£342.00
5101	Cyngor Sir Ddinbych	Tynnu'r basgedi crog i lawr	*	£315.00
5102	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5103	Marian Rees	Gwasanaethau cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
5104	Rick Parr	System sain yng ngwasanaeth Sul y Cofio		£80.00

126. YMDDISWYDDIAD CYNGHORYDD TREF

Darllenodd y Maer neges e-bost gan y Cynghorydd Geraint Woolford yn cyflwyno ei ymddiswyddiad oherwydd pwysau llwyth gwaith.

PENDERFYNWYD*: derbyn yr ymddiswyddiad ac anfon llythyr at y Cynghorydd Woolford i ddiolch iddo am ei gyfraniad i'r Cyngor Tref yn ystod ei gyfnod fel aelod ac fel Maer.*

127. CYNLLUN CYDNERTHEDD CYMUNED

Bu'r aelodau yn ystyried sefydlu gweithgor i fwrw ymlaen gyda'r gwaith o lunio Cynllun Cydnerthedd Cymuned Rhuthun. Gwirfoddolodd y Maer a'r Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Gavin Harris ac Anne Roberts i fod yn aelodau'r gweithgor.

PENDERFYNWYD*: trefnu cyfarfod o'r gweithgor gyda chynrychiolydd o adran Cynllunio ar gyfer Argyfwng Cyngor Sir Ddinbych.*

128. GŴYL GWRW 2018

Cyflwynodd y Cynghorydd Dave Snape wybodaeth ar gynlluniau i gynnal Gŵyl Gwrw Rhuthun yn 2018. Dywedodd eu bod wedi cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych gyda'r nod o ddefnyddio Neuadd y Farchnad fel y lleoliad, ond ei fod wedi'i brydlesu, a chynigiwyd y Carchar neu Neuadd y Dref. Roeddynt yn ystyried y dewisiadau hyn.

PENDERFYNWYD*: nodi'r wybodaeth.*

129. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 27 Tachwedd 2017 am 7.00pm.*